# CYNGOR CAERDYDD
# CARDIFF COUNCIL
# Adroddiad Blynyddol i Aelodau Etholedig 2018
# Annual Report for Elected Members 2018

**Cynghorydd / Councillor: Dan Naughton** **Plaid/ Party: Democratiaid Rhyddfrydol Cymru**

**Ward: Pentwyn** **Etholwyd yn Gyntaf/ First Elected: 5 Mai 2017**

Mae'r adroddiad yn nodi fy mhrif weithgareddau dros flwyddyn ddinesig 2017/18 sy'n dod i ben 24 Mai 2018. Darperir yr adroddiad er gwybodaeth i'r holl etholwyr a dim at unrhyw ddiben arall.

| |
|---|
| **Rôl a Chyfrifoldebau**<br><br>Ro'n i'n falch o gael fy ethol fel Cynghorydd y Democratiaid Rhyddfrydol ar gyfer Pentwyn a Llanedern am y tro cyntaf ochr yn ochr â fy nghydweithwyr yn y ward, y Cynghorwyr Joe Carter ac Emma Sandrey.<br><br>Rwy'n aelod o'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd, ac hefyd yn aelod o Awdurdod Tân ac Achub De Cymru.<br><br>Gellir gweld y Cofnod Presenoldeb yma: Presenoldeb<br>Gellir gweld y Cofnod Dysgu a Datblygu yma: Dysgu |
| **Gweithgareddau Etholaeth**<br><br>Dros y flwyddyn ddiwethaf, rwyf wedi ymdrin ag ystod eang o waith achos, yn ymwneud ag amrywiaeth o faterion gan gynnwys: - **Casgliadau gwastraff a thipio anghyfreithlon, anghenion tai a chynnal a chadw, cyfleusterau parciau a choed, parcio niwsans, atgyweiriadau i balmentydd a cheudyllau a chyrbiau is.**<br><br>Rwy'n falch o allu helpu preswylwyr gyda gwaith achos a datrys materion yn ymwneud â'r cyngor.<br><br>Rwyf hefyd wedi cynnal 15 Cymhorthfa Ward yn Hyb y Powerhouse yn Llanedern. Gellir gweld manylion Cymorthfeydd Ward ar Wefan y Cyngor<br>https://cardiffintranet.moderngov.co.uk/mgUserInfo.aspx?UID=1012&LLL=0 |

| |
|---|
| **Mentrau a Gweithgareddau Arbennig**<br><br>Rwyf wedi ymwneud â sawl deiseb i'r Cyngor ar amryw faterion gan gynnwys: -<br>Problemau ymddygiad gwrthgymdeithasol ym Mhentwyn, adeilad gwag y Pentwyn Arms, gwasanaethau bws i blant sy'n mynychu Ysgol Uwchradd Llanisien, problemau parcio y tu allan i Gampws Met Caerdydd ar Circle Way West, cael gwared ar y caffi yng Nghanolfan Hamdden Pentwyn a dirywiad y llyn ym Mharc Coed Y Nant.<br><br>Rwyf hefyd yn Llywodraethwr Ysgol Awdurdod Lleol yn Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Dewi Sant lle rwyf wedi bod y Llywodraethwr Ysgol am y 6 mis diwethaf. |
| **Gweithgareddau / Materion Eraill**<br><br>Rwyf wedi cymryd rhan mewn casgliadau sbwriel rheolaidd a drefnwyd gan Cadwch Gymru'n Daclus a Chasglwyr Pentwyn. Rwyf wedi bod yn mynychu cyfarfodydd PACT yn rheolaidd yn Llanedern a Phentwyn, ac wed cymryd rhan yng Ngrŵp Cymunedol Llanedern a Phentwyn.<br>Rwyf wedi mynychu digwyddiadau cymunedol a gynhaliwyd yn hyb y Powerhouse yn Llanedern ac eglwysi lleol, ac wedi cwrdd â Met Caerdydd mewn perthynas â materion ward. |
| **Cynghorydd:  Dan Naughton** |